Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Cylchlythyr Hydref '24





## Cyflwyniad

Gobeithiwn eich bod yn cadw'n hwylus ac wedi mwynhau haf braf. Dyma rifyn hydref 2024 o'n cylchlythyr tymhorol Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC).

Wrth edrych yn ôl ar y chwarter blaenorol, rydym yn hapus i nodi bod economi ranbarthol De-ddwyrain Cymru yn dal i brofi twf, hyder a gweithgarwch. Mae rhyfela byd-eang yn dal i fod yn boen i bob un ohonom o ran materion dyngarol ac ariannol.

Mae busnesau yn y rhanbarth yn dal i wynebu heriau wrth recriwtio staff galluog a chymwys. Bydd mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth wrth i ni symud o'r hydref i'r gaeaf.

Rydym wrth ein boddau gyda'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 'Ffyniant drwy Bartneriaeth' ers iddo gael ei lansio ddwy flynedd yn ôl. Drwy ein bwrdd a grwpiau clwstwr a arweinir gan gyflogwyr, rydym yn gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd a nodwyd gan gysylltiadau yn y diwydiant.

Yn dilyn cyfnod o drawsnewid, mae'n bleser mawr gennym longyfarch Eluned Morgan ar gael ei phenodi'n Brif Weinidog Cymru. Rydym yn falch iawn o weld y cabinet newydd yn datblygu ac rydym yn annog aelodau i groesawu'r agenda sgiliau. Yn wir, edrychwn ymlaen at weithio gyda Jack Sargeant AS yn rhinwedd ei rôl fel Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Bwriad y diweddariad hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf sy'n gysylltiedig â sgiliau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydym wir yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn olaf, ar ran y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau a'r tîm rheoli prosiect, gobeithiwn y bydd yr Hydref yn gyfnod llwyddiannus i chi i gyd.

**Leigh Hughes,**
**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**



# Lansio Medr



Cyflawnwyd carreg filltir arwyddocaol ym mis Awst wrth i Medr ddod yn weithredol, gan ysgwyddo'r rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Yng Nghymru, Medr sy'n gyfrifol bellach am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol, gan gynnwys addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), ymchwil ac arloesi, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae cyfrifoldebau Medr yn cynnwys ariannu, monitro darparwyr addysg drydyddol, hyrwyddo gwelliannau a galluogi rhagoriaeth gynaliadwy. Mae hefyd yn gyfrifol am flaenoriaethu buddiannau dysgwyr, ymateb i anghenion cyflogwyr a'r economi, a chydweithio i gynyddu cyfleoedd trydyddol cyfrwng Cymraeg.

Er iddo gael ei lansio ym mis Awst, bydd Medr yn parhau i esblygu dros y misoedd nesaf a bydd y tîm yn parhau i ymrwymo i weithio gyda phawb i sicrhau pontio llwyddiannus.

Fel sefydliad newydd, mae Medr wedi bod yn ffodus i etifeddu cyfoeth o adnoddau a chydweithwyr â phrofiad ac arbenigedd o CCAUC a Llywodraeth Cymru.

Mae Medr wrthi'n datblygu eu cynllun strategol sy'n amlinellu sut y maent wedi ymrwymo i gyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol a nodau strategol Llywodraeth Cymru. Bydd Medr yn ymgynghori ar ddrafft cyntaf y cynllun a bydd dogfennau ar gael i'w gweld ar wefan Medr.

Mae PSPRC yn edrych ymlaen at weithio gyda Medr a Llywodraeth Cymru wrth i ni barhau i gyflawni yn erbyn ein rhaglen waith graidd. Ein nod cyffredin yw ategu ein gilydd, yn lle ail-wneud yr un gwaith!

Rydym yn annog darllenwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ymweld â gwefan fyw Medr.

# Bydd lansiad HiVE yn chwyldroi addysg beirianneg ym Mlaenau Gwent.




Cyn bo hir, bydd Blaenau Gwent, rhanbarth sydd â hanes cyfoethog o arloesi diwydiannol, yn gartref i HiVE - campws **peirianneg** arloesol o **werth uchel**.

Fe'i ddatblygwyd mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol, Coleg Gwent, ac fe'i ariennir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd HiVE yn diwallu angen y rhanbarth am sgiliau sy'n barod ar gyfer y dyfodol mewn gweithgynhyrchu uwch, peirianneg a thechnolegau datblygol.

Sefydlwyd HiVE fel rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â bylchau sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws Cymru gyfan.

Mae Blaenau Gwent wedi profi galw cynyddol am sgiliau arbenigol mewn gweithgynhyrchu uwch - yn enwedig gan fod y diwydiant lleol wedi codi pryderon ynghylch diffyg cyfleusterau i hyfforddi prentisiaid neu wella sgiliau'r gweithlu.

Nod HiVE yw ymateb i'r heriau hyn yn uniongyrchol drwy gynnig addysg beirianneg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, a hyn i gyd tra'n denu mewnfuddsoddiad a meithrin arloesedd.

**Taith HiVE**

Prynodd Cyngor Blaenau Gwent ffatri Monwell, a oedd yn sylfaen ar gyfer datblygiad HIVE. Sefydlodd Awdurdodau Lleol, Coleg Gwent,

arweinwyr diwydiant, a'r llywodraeth bartneriaeth amlsector i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol.

Ymhlith y cerrig milltir cyllido allweddol y mae dyfarniad o £3 miliwn gan Raglen Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru, ac yna £9.6 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth y DU.

Gyda dros £3 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer offer arloesol, bydd HiVE yn cynnig cyfleusterau hyfforddi digyffelyb i fyfyrwyr a phrentisiaid, ac yn cadarnhau ei le fel canolfan addysgol hanfodol.

**Gweledigaeth ac amcanion HiVE**

Mae amcanion HiVE yn mynd y tu hwnt i addysg gonfensiynol. Dyma fydd y *Ganolfan Ragoriaeth Diwydiannol 4.0* cwbl integredig gyntaf yn y DU, gydag ôl troed carbon sero net, a champws di-bapur cyntaf Coleg Gwent.

Bydd y ganolfan yn llwyfan ar gyfer ymchwil ddiwydiannol ac addysgol, gan ddod yn arweinydd ym maes arloesi cynaliadwy a thrawsnewid digidol. Bydd y campws hefyd yn darparu cwricwlwm peirianneg eang, gydag ystod eang o adnoddau a thechnoleg flaengar, gan gynnwys £1 miliwn ar gyfer offer gyda buddsoddiad ar gyfer hybiau argraffu 3D mewn ysgolion cynradd lleol, a chyrsiau peirianneg BTEC Lefel 2 Pearson.

**Menter gymunedol-ganolog**

Mae effaith HiVE yn mynd y tu hwnt i hyfforddiant technegol. Mae mentrau fel Rhaglen Rhannu Prentisiaeth Anelu'n Uchel, sy'n cefnogi cyflogwyr a phrentisiaid fel ei gilydd, yn adlewyrchu ffocws HiVE ar ddatblygiad cymunedol a chynhwysiant.

Mae'r rhaglen hon yn helpu busnesau bach a chanolig lleol yn y diwydiant gweithgynhyrchu i recriwtio a hyfforddi prentisiaid, ac yn sicrhau bod cyrsiau'n cyfateb i anghenion y diwydiant. Mae HIVE hefyd wedi ymrwymo i feithrin addysg STEM ar draws ysgolion ym Mlaenau Gwent trwy ei Brosiect Hwyluso STEM. Mae'r fenter hon yn cynnwys hybiau HiVE bach, ystafelloedd dosbarth amgylcheddol, a chwricwlwm i bob ysgol sy'n canolbwyntio ar anghenion y diwydiant, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

**Partneriaethau ac ymgysylltu â'r gymuned**

Mae HiVE wedi sefydlu bwrdd cynghori sy'n cynnwys arweinwyr diwydiant, sefydliadau addysgol, a chynrychiolwyr y llywodraeth i gynnal cyfathrebu agored a chynhyrchiol â rhanddeiliaid. Mae'r ganolfan yn bwriadu cynnal digwyddiadau i'r cyhoedd ac ysgolion lleol, gan gryfhau cysylltiadau â'r gymuned ymhellach.

Mae HiVE yn fwy na champws yn unig - mae'n borth i ddyfodol mwy disglair a chynaliadwy i fyfyrwyr, diwydiannau lleol a'r gymuned ehangach.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Tara Lane:
**tara.lane@blaenau-gwent.gov.uk**



# Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: Rhaglen Twf Datblygu Clystyrau (RhTDC)

**Sgiliau Gyrru ac Arloesedd Data**

Yn ddiweddar, rhoddodd Rowena O'Sullivan, rheolwr sgiliau a thalent Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ddiweddariad i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC am gyflawniadau'r Rhaglen Twf Datblygu Clwstwr (RhTDC) a'r dirwedd sgiliau ehangach yn Ne-ddwyrain Cymru.

Fel yr amlygwyd yn ein cylchlythyr blaenorol, comisiynodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd CAVC fel ei brif asiant rheoli a PWC i blymio'n ddwfn i heriau digidol, sero net a sgiliau gweithgynhyrchu. Mae adroddiad llawn cyfnod darganfod RhTDC bellach ar gael ar-lein i'r rhai sydd â diddordeb yn y canfyddiadau.

Mae elfen sgiliau'r RhTDC yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau sgiliau arbenigol sydd wedi'u targedu i greu pyllau talent newydd trwy sawl 'bŵtcamp' effaith uchel, ac ymyriadau uwchsgilio i fusnesau drwy gyfres o gyrsiau byr, a'r rheini eisoes yn cael effaith sylweddol.

Un o uchelgeisiau allweddol gwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw cynyddu gallu a llythrennedd data ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. I'r perwyl hwn, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sefydlu cymuned o arweinwyr data sy'n cynnwys penaethiaid data, arweinwyr trawsnewid ac academyddion, gan gynnwys sefydliadau fel Hodge Bank, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, awdurdodau lleol a busnesau bach a chanolig.

O ganlyniad i adborth gan y gymuned, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi lansio'r Rhwydwaith Cynwysoldeb Data, menter feiddgar i fynd i'r afael â heriau amrywiaeth o fewn y sector data a'i wneud yn fwy hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae canlyniadau diweddaraf y rhaglen yn drawiadol: 34 o ymyriadau sgiliau yn cael eu cyflawni, sy'n arwain at 973 o bobl yn cael eu hyfforddi neu eu huwchsgilio, 492 o fusnesau yn cael eu cefnogi, a 428 o swyddi newydd yn cael eu creu erbyn mis Mawrth 2025 – traweffaith gadarnhaol i'r rhanbarth.

Mae ymrwymiad parhaus RhTDC i feithrin sgiliau a hyrwyddo cynhwysiant data yn dangos ymgyrch Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i feithrin twf rhanbarthol a grymuso busnesau ac unigolion ledled De-ddwyrain Cymru.

Bydd mwy o newyddion wrth i'r rhaglen hanfodol hon barhau i ddod â newid cadarnhaol i'r rhanbarth cyfan.

# Lansio Hwb Di-garbon Cymru i yrru tai cynaliadwy ledled Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Hwb Di-garbon Cymru yn swyddogol, menter Cymru gyfan sydd â'r nod o helpu datblygwyr, landlordiaid cymdeithasol a chymdeithasau tai i leihau eu defnydd o ynni ac allyriadau carbon mewn cartrefi.

Bydd yr Hwb, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn darparu cyngor a chymorth arloesol ar gyfer dylunio a thechnolegau carbon sero net mewn cartrefi presennol a newydd.

Cyflwynir cenhadaeth yr Hwb dros dair blynedd, gyda phwyslais cychwynnol ar gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Bydd yn ehangu yn y pen draw i gynnwys adeiladwyr tai preifat a landlordiaid.

Drwy gydlynu a dysgu o brosiectau presennol y DU, nod yr Hwb yw dod yn adnodd blaenllaw ar gyfer dylunio, adeiladu a pherfformiad tai sero-net yng Nghymru.

Gyda chefnogaeth grŵp llywio sy'n cynnwys nifer o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a sefydliadau tai, mae'r Hwb wedi partneru gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Cynghrair Cartrefi Da, a TrustMark i ddarparu ei wasanaethau.

Lansiwyd yr Hwb yn swyddogol ym mis Ebrill yn y Pafiliwn yn Llandrindod, a mynychwyd y lansiad gan dros 110 o gynrychiolwyr.

Elfed Roberts o Grŵp Tai Pobl oedd yn cadeirio'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys anerchiad fideo gan Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai. Roedd y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau ar genhadaeth yr Hwb ac astudiaethau achos o'r rhaglenni tai arloesol ac ôl-osod optimaidd.

Bydd yr Hwb yn canolbwyntio'n gryf ar bolisi sero net, y gadwyn gyflenwi ac, yn bwysig, sgiliau a hyfforddiant. Mae'r Hwb eisoes yn canolbwyntio ar ddatblygu diffiniadau sero net clir a'r angen am hyfforddiant a sgiliau gwell ar draws y sector.

Rhagwelir y bydd yr Hwb hefyd yn hwyluso cynhadledd flynyddol i rannu arferion gorau a pharhau i ysgogi meddwl strategol yn y sector. Mae Hwb Di-garbon Cymru bellach yn barod i gefnogi'r newid i gartrefi sy'n gynaliadwy, ac yn effeithlon o ran ynni ledled Cymru.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **https://zerocarbonhwb.cymru/**

# Adnoddau Gyrfaoedd PSPRC ar gyfer De-ddwyrain Cymru

Yn aml, sgiliau yw'r brif flaenoriaeth i gyflogwyr; ac mae dod o hyd i unigolion sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol yn hanfodol er mwyn llwyddo.

Efallai bod rhai pobl ifanc eisoes yn gwybod pa yrfa maen nhw eisiau ei gwneud, ond yn aml, nid yw llawer ohonynt yn gwybod pa yrfaoedd sy'n bodoli ar draws de-ddwyrain Cymru, na sut mae dod o hyd i swydd eu breuddwydion. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r PSPRC wedi datblygu cyfres o ganllawiau gyrfaoedd drwy raglen waith 'Gwarant Pobl Ifanc' Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar, lansiodd y PSPRC gasgliad o ganllawiau sector-benodol sy'n canolbwyntio ar sectorau blaenoriaeth rhanbarthol. Datblygwyd y canllawiau dwyieithog fel adnodd cynhwysfawr i bobl ifanc sy'n archwilio eu llwybrau gyrfaol posibl. Mae'r canllawiau'n rhoi trosolwg o'r sectorau blaenoriaeth ledled De Ddwyrain Cymru ac maent wedi'u cynllunio nid yn unig i hysbysu ond hefyd i ysbrydoli pobl ifanc a'u helpu i ddarganfod y cyfleoedd cyffrous yn y sectorau allweddol hyn.

Mae'r canllawiau'n rhoi trosolwg eang o bob un o'r sectorau blaenoriaeth PSPRC, a mewnwelediadau gwerthfawr a gwybodaeth am y swyddi sydd ar gael a'r cyflogau sy'n bosibl. Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad parhaus i gyflawni yn erbyn Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau tair blynedd y PSPRC, ac yn atgyfnerthu ymrwymiad i fynd i'r afael â bylchau a phrinder sgiliau y mae cyflogwyr rhanbarthol yn eu hwynebu.

Gall y canllawiau chwarae rhan hanfodol wrth arfogi pobl ifanc â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol ac maent ar gael isod:

- **https://www.ccrsp.co.uk/eng/priority-sector-careers-guides**
- **https://www.ccrsp.co.uk/cym/priority-sector-careers-guides**






# Diweddariad ar ddatblygu prentisiaethau

Mae tirwedd prentisiaethau yn parhau i esblygu, gan adlewyrchu anghenion newidiol diwydiannau a'r gweithlu ledled Cymru. Mae nifer o ddatblygiadau allweddol wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, yn enwedig o ran fframweithiau newydd, cymwysterau, a thueddiadau ehangach o fewn prentisiaethau.

**Cyflwyno fframweithiau a chymwysterau newydd:** Mewn ymateb i alwadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant, mae nifer o fframweithiau prentisiaeth newydd wedi, neu ar fin cael eu datblygu, yn enwedig mewn sectorau fel digidol, sero net ac iechyd. Mae lefelau dau a thri mewn fframweithiau gwyddor gofal iechyd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ateb y galw am lwybrau i mewn i'r sector cynyddol hwn.

Mae'r safonau newydd hyn wedi'u cynllunio i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar brentisiaid i lwyddo yn y meysydd hyn sy'n datblygu'n gyflym.

Mae'r CITB wedi bod yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ymgynghoriad ar ddatblygu prentisiaethau gradd mewn adeiladu yng Nghymru. Mae'r prentisiaethau gradd wedi'u creu gyda chydweithrediad rhwng diwydiant a chyrff proffesiynol a byddant yn cael eu lansio yn Hydref 2024.

**Pwysleisio sgiliau digidol a gwyrdd:** Wrth i'r economi symud fwyfwy tuag at dechnolegau digidol a gwyrdd, mae prentisiaethau wedi ehangu i gynnwys hyfforddiant mwy cynhwysfawr yn y meysydd hyn. Mae pwyslais cynyddol ar brentisiaethau sy'n mynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y sectorau hyn, ac mae fframweithiau'n cael eu diweddaru i ymgorffori sgiliau digidol ac arferion cynaliadwyedd ar draws sawl diwydiant.

**Adolygu cymwysterau:** Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi ei argymhellion ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ôl-16 mewn arlwyo a lletygarwch, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd rhestr newydd, symlach o gymwysterau yn barod i ddysgwyr o fis Medi 2027. Bydd hyn yn sefydlu cyfres newydd, symlach o gymwysterau arlwyo a lletygarwch ar gyfer Cymru ar lefel un, dau a thri, i golegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Bydd yn galluogi dysgwyr i wneud symud ymlaen mewn arlwyo, bwyd a diod neu'r ddau (gwasanaethau lletygarwch).

**Canolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth:** Mae datblygiadau diweddar ym mholisi Llywodraeth Cymru, megis y Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr estynedig a'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol, wedi anelu at wella cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn rhaglenni prentisiaeth.

Cyflwynwyd mentrau i annog grwpiau a dangynrychiolir i gymryd rhan, gan gynnwys pobl ag anableddau, a phobl o gefndiroedd lleiafrifol. Nod yr ymdrechion hyn yw sicrhau bod prentisiaethau yn hygyrch i ystod amrywiol o ddysgwyr.

